# Y Pwyllgor Is-Ddeddfwriaeth

**SLC(3)-01-09**

## Ystyried Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU

### Diben

1. Rhoi gwybod i Aelodau am Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU a nodi eitemau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor ac o ddiddordeb iddo.

### Cefndir

2. Mae gan y Pwyllgor y pwerau canlynol o dan y rheolau sefydlog:

Mae Rheol Sefydlog 15.6 (ii) yn nodi y caiff y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ystyried a chyflwyno adroddiad ar "pa mor briodol yw darpariaethau mewn ........ Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru."

3. Mae hyn yn rhan o gylch gwaith ehangach y Pwyllgor yn y Trydydd Cynulliad o'i gymharu â Phwyllgor Deddfau'r Ail Gynulliad. Mae'r Pwyllgor ar hyn o bryd yn cynnal ymchwiliad sy'n cynnwys edrych ar sut y dylai'r Pwyllgor graffu ar Fesurau Senedd y DU sy'n effeithio ar Gymru.

4. Yn ystod yr ymchwiliad, awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor gychwyn trwy ystyried rhaglen waith ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU, a'i defnyddio i nodi Mesurau perthnasol y DU sydd â goblygiadau i bwerau deddfu Cymru.

5. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i ymgynghori ymhellach cyn iddo ystyried y materion allweddol sy'n deillio o'r ymchwiliad a'i argymhellion. Tra'n disgwyl canlyniad yr ymchwiliad, diben y papur hwn yw rhoi gwybod i Aelodau am gynnwys y rhaglen waith a cheisio cael rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am Fesurau'r DU fel y cam cyntaf yn y broses graffu.

6. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio'n benodol ar ystyried y darpariaethau sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru yn hytrach na chraffu ar bwerau fframwaith arfaethedig (pwerau i wneud Mesurau) sy'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y meysydd hyn neu i ystyried goblygiadau Mesurau'r DU ar Gymru'n gyffredinol.

### Rhaglen Waith Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer 2008 - 2009

7. Ar 14 Mai 2008, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei rhaglen ddeddfwriaethol ddrafft ar gyfer 2008 - 2009. Y llynedd (Gorffennaf 2007) oedd y tro cyntaf i Lywodraeth y DU ymgynghori ar ei blaenoriaethau deddfwriaethol cyn Araith y Frenhines. Drwy ehangu'r ymgynghoriad eleni, nod y Llywodraeth oedd sicrhau bod ymgysylltiad gweithredol â'r cyhoedd yn rhan sefydlog o'r cylch deddfwriaethol blynyddol a gwella ansawdd y ddeddfwriaeth a gyflwynir gerbron y Senedd.

1

8. Cyflwynodd y Frenhines ei Haraith i'r Senedd ar 3 Rhagfyr 2008, ac anerchodd yr Ysgrifennydd Gwladol y Cyfarfod Llawn ar 10 Rhagfyr 2008.

### Argymhellion

7. Mae'r pwyllgor wedi cytuno i ymgynghori ymhellach ar ei ymchwiliad cyn iddo ystyried y materion allweddol sy'n deillio o'r ymchwiliad a'i argymhellion.  Tra disgwylir canlyniad yr ymchwiliad, diben yr adroddiad hwn yw helpu Aelodau i ystyried cynnwys rhaglen waith ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU.

8. Argymhellir bod y pwyllgor yn ystyried y Mesurau a amlinellir yn Atodiad 1 ac yn nodi Mesurau sydd o ddiddordeb i gylch gwaith y pwyllgor a'i fod yn ystyried a ydyw'n dymuno gofyn am ragor o wybodaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am y Mesurau hyn.

Swyddfa Ddeddfwriaeth
Ionawr 2009

Nodi
1. Making New Laws - the Role of the Draft Legislative Programme (Gwefan Swyddfa Arweinydd Tŷ'r Cyffredin)